Ceisiadau am

GANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG

Manylion Masnachu
- Arwyddion
- Tu blaen siop ar y llawr isaf
- Canopïau
- Caeadau
- Newidiadau mewnol

Bwriad y nodiadau hyn yw egluro'r amrediad a'r wybodaeth sy'n cydfynd â chais Caniatâd Adeilad Rhestredig. Mae angen caniatâd ar gyfer gwaith sy'n mynd y tu hwnt i adnewyddu a chynnal a chadw ac sy'n **effeithio ar gymeriad** yr adeilad rhestredig fel un sydd o ddiddordeb pensaernïol arbennig neu o ddiddordeb hanesyddol. Gall gwaith o'r fath amrywio o ychwanegu arwyddion i chwalu, neu ddarparu estyniad. Dylid nodi y gall fod angen caniatâd ar gyfer **gwaith mewnol** hefyd a dylid darparu manylion priodol o'r cynnig.

Bydd angen y wybodaeth sylfaenol ganlynol fel rhan o'r cais **fel rheol**:-
- datganiad i **gyfiawnhau'r cynnig** ac i ddangos pam fod newidiadau neu chwalu yn angenrheidiol neu'n ddewisol;
- bydd angen **adroddiad strwythur** lle bo'n ymwneud ag addasu neu lle bo gwaith neu newidiadau o'r math fel bo angen dangos y gall yr adeilad gynnal y newidiadau arfaethedig;
- dyluniadau arolwg o'r **sefyllfa bresennol** yn cynnwys cynlluniau a drychiadau - yn cael eu cefnogi gan drawsdoriad(au) lle fo'n briodol e.e. lle bo'n ymwneud ag adeilad sydd â ffrâm bren;
- dyluniadau gyda nodiadau llawn o'r cynnig yn cynnwys **cynlluniau a drychiadau** - gweler y rhestr wirio. Bydd angen i'r cynlluniau hyn **fod yn fwy manwl** na chynlluniau cais cynllunio.

Nid oes ffi cais ar gyfer ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig. Bydd darparu **9 set o gynlluniau** i ddiben ymgynghori'n sicrhau y caiff eich cais sylw ynghynt.

Dylid cael ffurflenni cais a thystysgrif perchnogaeth oddi wrth yr Adran Gynllunio.

Rhestr Wirio Manylion



Manylion y Ffenestri
- Math
- Dull agor
- Defnyddiau
- Manylion lintel
- Manylion silffoedd
- Dull gosod gwydr
- Safle/dyfnder yn agoriad y wal
- Gorffeniad amddiffynnol/addurniadol
- Cloriau (mewnol ac allanol)
- Gwaith haearn addurniadol

Manylion y To
- Simneiau
- Cyfluniad y to
- Gorchudd y to, yn cynnwys y grib
- Manylion y bargod
- Soffit
- Ffenestri'r to
- Gwteri dŵr glaw
- Gorffeniad addurniadol/amddiffynnol
- Manylion am y pwynt lle mae'r to yn cyfarfod â'r wal (y bondo)
- Awyru

Manylion Cwrtil
- Triniaeth wyneb y tir o gwmpas yr adeilad
- Triniaeth y ffiniau - waliau, ffensys/rheiliau
- Newidiadau i adeiladau eraill o fewn y tir/cwrtil

Manylion y Waliau
- Adeiladwaith y waliau a'r deunyddiau
- Morter/pwyntio
- Llin-gwrs
- Gwaith briciau addurniadol
- Cyntedd/canopi
- Drysau, math a deunydd
- Ffenestri (trefniant y ffenestri)
- Gorffeniad amddiffynnol/addurniadol

Am fanylion neu gyngor pellach cysylltwch â'r Adran Gynllunio yn y cyfeiriad isod:

Y Prif Swyddog Cynllunio,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
PO Box 1290, Stryt Y Lampint, Wrecsam LL11 1WL
Ffôn: Wrecsam (01978) 292019.